# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN**

Dyddiad ac Amser

**4.00 y.h., DYDD MAWRTH, 26AIN TACHWEDD, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

## AELODAETH

**Cynghorwyr Gwynedd**

**Dafydd Davies**
**Gareth Tudor Jones**
**John Brynmor Hughes**
**Gruffydd Williams**
**Gareth Williams**

**Eraill**

**Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.**

**Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd**

**Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol**

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol,**
**Cyfoeth Naturiol Cymru,**
**Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,**
**Cyfeillion Llŷn,**
**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,**
**Undeb Amaethwyr Cymru,**
**Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,**
**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,**
**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,**
**Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.**

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldebau.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I ystyried unrhyw eitem sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd.

## 4. COFNODION 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Medi 2024, fel rhai cywir.

## 5. ADOLYGU CYNLLUN RHEOLI'R AHNE 8 - 9

I gyflwyno gwybodaeth am rôl y Cydbwyllgor Ymgynghorol yn y broses o baratoi ac adolygu'r Cynllun Rheoli ar gyfer yr AHNE.

## 6. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE 10 - 12

I gyflwyno gwybodaeth am y camau cychwynnol yn y broses o adolygu'r Cynllun Rheoli.

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 10/09/2024

**Yn bresennol**:

**Aelodau:** Y Cynghorwyr **Gareth Williams**, **Gareth Tudor Jones**, **Gruffydd Williams, Dafydd Davies** ac **Angela Russell** (Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd) ynghyd â **Jina Gwyrfai** (Cyngor Cymuned Llanaelhaearn), **T. Victor Jones** (Cadeirydd) (Cyngor Cymuned Llanbedrog), **Sian Parri** (Cyngor Cymuned Tudweiliog) a **Jenny Emmett** (Archeoleg Gwynedd).

**Swyddogion: Bleddyn P. Jones** (Swyddog AHNE Llŷn), **Morus Llwyd Dafydd** (Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn), **Elin Wyn Hughes** (Swyddog Gweithgareddau AHNE Llŷn), **Heledd Fflur Jones** (Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio) a **Rhodri Jones** (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd datganiadau o ymddiheuriad gan **Einir Wyn** (Cyngor Cymuned Llanengan), **Eirian Allport** (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr), **Gillian Walker** (Cyfeillion Llŷn), **Euros Jones** (FWAG Cymru) ac **Linda Ashton** (Cyfoeth Naturiol Cymru).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyd-bwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2024, fel rhai cywir.

**5. PROSIECT TIRLUN BYW LLŶN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog Gweithgareddau AHNE Llŷn gan nodi bod Prosiect Tirlun byw Llŷn yn cael ei ariannu ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd.

Eglurwyd bod tair thema i'r prosiect sef; Nodweddion Hanesyddol, Amgylchedd Naturiol ac Mynediad. Ymhelaethwyd bod nifer o allbynnau penodol wedi cael eu gosod er mwyn sicrhau bod nod y prosiect o gwblhau mân waith ar y ddaear a chynnal gweithgareddau yn cael ei gyfarch. Cadarnhawyd mai allbynnau'r prosiect yw:

- Cwblhau gwaith ar 1-2 o safleoedd o fewn AHNE Llŷn ar gyfer y themâu canlynol
  - Nodweddion Hanesyddol
  - Cynefinoedd
  - Gwella Mynediad

- Cynnal 4 digwyddiad i gefnogi datblygiad sgiliau gwledig (megis adfer waliau cerrig a gwrychoedd)
- Cynnal 6 digwyddiad i roi cyfle i bobl gadw'n heini a dysgu am fyd natur a'r amgylchedd (megis Teithiau Cerdded ac Awyr Dywyll)
- Cynnal isafswm o 8 digwyddiad i Wirfoddolwyr er mwyn cefnogi themâu'r prosiect gan gynnwys adfer nodweddion, hel sbwriel a gwella llwybrau.

Tywyswyd yr Aelodau drwy nifer o weithgareddau sydd eisoes wedi cael eu cynnal gan gynnwys sesiynau codi waliau sych (Hyfforddiant Sgiliau Gwledig), cadw Cymru'n Daclus (Sesiynau Casglu Sbwriel) ac hyfforddiant strimio yn Coleg Glynllifon (Hyfforddiant i'r Gwirfoddolwyr). Diolchwyd i bawb oedd ynghlwm a'r digwyddiadau hyn. Nodwyd cefnogaeth i brosiectau sy'n cydweithio gyda dysgwyr y Gymraeg er mwyn sicrhau cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer yr iaith yn gymdeithasol.

Nodwyd bod nifer o weithgareddau ar y gweill gan nodi bydd y digwyddiadau yn cael eu hyrwyddo yn gyhoeddus dros yr wythnosau nesaf. Gofynnwyd i'r Aelodau rannu gwybodaeth am y digwyddiadau o fewn eu cymunedau lleol ac estynnwyd gwahoddiad i bawb fynychu'r digwyddiadau.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

**6. PROSIECT "PERTHYN"**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog AHNE Llŷn gan atgoffa aelodau o'r sgwrs gychwynnol ar y mater yn ystod cyfarfod y Cyd-bwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2024.

Cyfeiriwyd at y Comisiwn Cymunedau Cymraeg a sefydlwyd gan Llywodraeth Cymru yn 2022 er mwyn ymchwilio i'r heriau sy'n wynebu'r Gymraeg ac i awgrymu ffyrdd o addasu polisïau cyhoeddus er budd yr iaith a chymunedau. Manylwyd bod adroddiad terfynol y Comisiwn wedi cael ei gyflwyno yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Rhondda Cynon Taf eleni. Ymhelaethwyd bod yr adroddiad yn edrych ar ddirywiad y Gymraeg ac yn pwysleisio pwysigrwydd cadarnleoedd y Gymraeg, megis Penrhyn Llŷn, a gosod argymhellion ar gyfer gweithrediadau cefnogol i'r dyfodol. Tynnwyd sylw penodol i'r argymhelliad o ddynodi ardaloedd 'o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch' ble mae dros 40% o siaradwyr ardaloedd penodol yn siarad y Gymraeg. Nodwyd bod argymhellion pellach i ardaloedd Dwysedd Uwch yn cynnwys:

- Dwysau'r ystyriaeth a wneir o'r Gymraeg o fewn fframwaith polisi
- Caniatáu ymyraethau ac amrywiaeth polisi a phwyslais polisi o blaid y Gymraeg fel iaith gymunedol
- Sicrhau fod yr amrywiaeth polisi yn ymateb i anghenion cymdeithasol ac ieithyddol yr ardaloedd hyn
- Rhoi grymoedd angenrheidiol i rymuso cymunedau i wrthdroi shifft iaith.

Eglurwyd bod prosiect Perthyn wedi cael ei sefydlu gan Cyfeillion Llyn a Chymdeithas Pen-y-graig mewn ymateb i araith Jeremy Miles (Aelod Cabinet dros Economi, Ynni a'r Iaith Gymraeg) yn 2022, ble ddywedodd fod yr iaith yn perthyn i bawb ac yn gosod dyletswydd i bawb gydweithio er mwyn sicrhau ei ddyfodol. Nodwyd bod Perthyn yn unol â nod y Llywodraeth i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac yn gefnogol o argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Esboniwyd bod y prosiect hefyd yn

edrych ar sawl maes arall sydd yn gysylltiedig â'r iaith megis polisïau gosod tai, ystadegau ieithyddol ac enwau Cymraeg.

Ychwanegwyd bod prosiect Perthyn yn hybu Croeso Cymraeg, diwydiant ymwelwyr sydd yn rhoi pwyslais a chefnogaeth i'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig. Eglurwyd bod gan y prosiect tair nod, sef:

- Gwarchod a chryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol
- Cynyddu niferoedd siaradwyr ac aelwydydd Cymraeg
- Cyflwyno croeso Cymraeg i bawb a hanes ein bro i'r byd

Adroddwyd bod Cyfeillion Llŷn a Chymdeithas Pen-y-graig wedi codi ymwybyddiaeth o brosiect Perthyn gyda cynghorau cymuned a thref lleol. Cadarnhawyd bod cynghorau Aberdaron, Botwnnog a Thudweiliog wedi dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol Dwysedd Uwch gyda nifer o gynghorau eraill yn rhan o'r prosiect erbyn hyn.

Esboniwyd bod 'cynlluniau i warchod a chryfhau'r Gymraeg' wedi cael ei ychwanegu at restr o gynlluniau fydd yn cael blaenoriaeth yng Nghynllun Adfywio Lleol, Cynllun Ardal Ni Pen Llŷn 2023 am y tro cyntaf, yn dilyn cefnogaeth Cynghorau Cymuned Llŷn i ddynodi'r Ardal yn un o arwyddocâd ieithyddol Dwysedd Uwch.

**PENDERFYNIAD**

- **Croesawu adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg a datgan cefnogaeth i Lywodraeth Cymru**
- **Galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar argymhellion Comisiwn Cymunedau Cymraeg fel mater o frys er mwyn gwarchod yr iaith ym Mhen Llŷn.**
- **Cefnogi mewn egwyddor prosiect Perthyn a'r 3 prif nod**

## 7. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog AHNE Llŷn gan atgoffa'r Aelodau bod paratoi ac olygu Cynllun Rheoli yn un o gyfrifoldebau statudol Cyngor Gwynedd yn unol â Deddf Cefn gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Nodwyd bod gan y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol hwn rôl yn ystod y broses o baratoi ac adolygu'r Cynllun.

Cydnabuwyd bod amryw o ffactorau wedi amharu ar amserlen adolygu'r Cynllun megis y pandemig, gwaith ar brosiectau cyfalaf eraill a chapasiti'r swyddogion i gyflawni'r gwaith yn amserol. Er hyn, pwysleisiwyd bod y Cynllun presennol wedi dyddio ac mae ei adolygu yn flaenoriaeth.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd ystyried y gwybodaeth ddiweddaraf am nodweddion yr ardal, cynlluniau, strategaethau ac amcanion cadwraeth wrth adolygu'r Cynllun. Nodwyd hefyd bydd angen dilyn canllawiau gan Cyngor Cefn Gwlad Cymru sydd bellach yn cael eu diweddaru gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer AHNEau ac Parciau Cenedlaethol. Nodwyd bod swyddogion AHNE Llŷn eisoes wedi cyflawni peth gwaith cefndirol drwy gomisiynu diweddariad o Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE, gyda chrynodeb o ddiweddariad ar wahanl nodweddion o'r ardal wedi cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor. Ychwanegwyd y bu i Ymgynghorydd gael ei gomisiynu er mwyn diweddaru Cyd-destun y Cynllun.

Atgoffwyd yr Aelodau o rinewddau AHNE Llŷn, gan nodi na ragwelir yr angen i addasu'r rhain ar gyfer y Cynllun diwygiedig. Nodwyd mai'r rhinweddau sydd yn perthyn i AHNE Llŷn yw:

- Tirlun ac Arfordir Hardd
- Tawelwch ac Amgylchedd Iân
- Cyfoeth o fywyd gwyllt a chynefinoedd
- Yr Amgylchedd Hanesyddol
- Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant
- Pobl a chymunedau clos
- Cynnyrch a busnesau lleol
- Mynediad hawliau tramwy

Argymhellwyd gweledigaeth newydd ar gyfer y Cynllun diwygiedig yn seiliedig ar y flwyddyn 2050 sef;

"Ardal o dirlun ac arfordir hardd gyda bywyd gwyllt cynhenid yn ffynnu, lefel isel o lygredd amgylcheddol a digonedd o gyfleon mynediad cyhoeddus. Adeiladau a nodweddion hanesyddol mewn cyflwr da, busnesau lleol yn llwyddo a chymunedau Llŷn yn cynnal yr iaith a'r diwylliant Cymreig".

Ychwanegwyd bod y weledigaeth hon yn ddiweddariad i'r weledigaeth at gyfer 2040 sydd eisoes mewn lle yn y Cynllun presennol.

Eglurwyd bydd Uned AHNE yn adolygu amcanion a pholisiau'r Cynllun presennol gan drefnu cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor i drafod yr addasiadau hynny. Ymhelaethwyd bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei addasu er mwyn cynnwys manylion am y gwaith yr anelir ei gwblhau o fewn cyfnod gweithredol y Cynllun. Nodwyd yr angen i adolygu Asesiadau Rheoliadau Amgylcheddol a Rhywogaethau sydd ynglwm â'r cynllun.

Aethpwyd ymlaen i gadarnhau bydd cyfnod o ymgynghori ar y Cynllun diwygiedig drafft. Cadarnhawyd bydd gan y Cyd-bwyllgor rôl i ystyried y sylwadau a dderbynnir.

Trafodwyd sefydlu is-bwyllgorau penodol er mwyn datblygu'r Cynllun a derbyn mewnbwn manwl gan Aelodau'r Cyd-bwyllgor ar rinweddau penodol AHNE Llŷn. Er hyn, pwysleisiwyd gallai hyn arafu'r broses o ddiweddaru'r Cynllun gan i'r Uned dderbyn gwybodaeth ac argymhellion yn dameidiog. Sicrhawyd bydd trafodaethau ar agweddau o adolygu'r Cynllun yn cael ei drafod yn fanwl yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yn y dyfodol. Cytunwyd ei fod yn holl-bwysig bod cymaint o fewnbwn a phosib i'r Cynllun gan gydnabod mai cyfrifoldeb statudol Cyngor Gwynedd yw ei gwblhau. Nodwyd bod cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yn cael ei gynnal yn amlach wrth adolygu'r Cynllun.

**PENDERFYNIAD**

- **Derbyn yr wybodaeth yn yr adroddiad ar gyfer y Cynllun Rheoli.**
- **Cynnal cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor ym mis Tachwedd er mwyn trafod materion sy'n ymwneud ag adolygu'r Cynllun Rheoli yn unig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.00yh a daeth i ben am 5.10yh

______________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Tachwedd 26ain 2024 |
| **TEITL** | Adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae paratoi ac adolygu Cynllun Rheoli yn un o gyfrifoldebau Cyngor Gwynedd mewn perthynas â'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn sgîl Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

1.2 Mae Cynllun Rheoli presennol AHNE Llŷn wedi dyddio ac angen ei adolygu. Yn anffodus mae nifer o ffactorau wedi amharu ar yr gwaith adolygu yn cynnwys y pandemig, gwaith ar brosiectau eraill a materion capasiti.

1.3 Mae'r adroddiad yma yn cyfeirio at rôl y Cydbwyllgor wrth adolygu'r Cynllun, dull y cyfarfodydd a'r canllawiau sydd ar gael i Awdurdodau Lleol.

## 2.0 RÔL Y CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL

2.1 Mae gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol ran i'w chwarae yn y broses o baratoi ac adolygu'r Cynllun Rheoli ar gyfer yr AHNE. Nodir yn y Cylch Gorchwyl mai rôl y Cydbwyllgor Ymgynghorol yw:

- Rhoi cyngor ar baratoi a gweithredu Cynllun Rheoli ar gyfer yr AHNE
- Monitro a gwerthuso cynydd o fewn rhaglen weithredol y Cynllun Rheoli yn flynyddol ac adolygu'r Cynllun ei hun yn rheolaidd.

2.2 Mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd (6), y Cynghorau Cymuned/ Tref perthnasol (10) a'r mudiadau/ asiantaethau canlynol:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor
- Cyfeillion Llŷn
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- FWAG Cymru
- Pysgotwyr Llŷn
- Archaeoleg Gwynedd
- Cynrychiolydd Sector Twristiaeth
- Cynrychiolydd Sector Fusnes

## 3.0 CYFARFODYDD Y CYDBWYLLGOR

3.1 Cyn y pandemig roedd cyfarfodydd y Cydbwyllgor yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb, fel arfer ym Mhwllheli. Fel pob cyfarfod a phwyllgor arall bu raid trosglwyddo i gyfarfodydd rhithiol yn ystod y pandemig.

3.2 Yn ddiweddar mae rhai aelodau'r Cydbwyllgor wedi holi am y posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb unwaith eto, neu gynnal cyfarfodydd hybrid lle mae rhai aelodau mewn ystafell gyfarfod ac eraill yn ymuno yn rhithiol.

3.3 Mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu trefn sy'n golygu mai rhai cyfarfodydd penodol yn unig sydd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb/hybrid (Cyngor Llawn, y Cabinet, Pwyllgorau Craffu a Phwyllgor Cynllunio), tra fo cyfarfodydd eraill i gyd yn cael ei gynnal yn rhithiol. Ymhellach dylid pwysleisio fod angen cyfarpar technolegol ar gyfer cyfarfodydd hybrid, nid oes gan y Cyngor ystafell gyda'r cyfarpar yma ym Mhwllheli.

## 4.0 CANLLAWIAU I AWDURDODAU LLEOL

4.1 Wrth adolygu'r Cynllun Rheoli mae disgwyl i Awdurdodau perthnasol ddilyn canllawiau sydd wedi eu cyhoeddi ar baratoi ac adolygu Cynlluniau Rheoli AHNE. Cyhoeddwyd canllawiau gwreiddiol ar gyfer y gwaith gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru nifer o flynyddoedd yn ôl bellach. Roedd y Canllawiau hyn yn rhoi arweiniad ar beth ddylai Cynlluniau Rheoli ei gynnwys, sut i'w gosod allan, ymgynghori ayb.

4.2 Yn diweddar mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi comisiynnu cwmni o ymgynghorwyr - *Land Use Consultants* i adolygu a diweddaru'r Canllawiau hyn a'u gwneud yn berthnasol i AHNE a'r Parciau Cenedlaethol (Tirweddau Dynodedig Cymru). Pwrpas y Canllawiau hyn, fel a nodir yn y cyflwyniad, yw sicrhau fod cynlluniau rheoli yn:

- arwain, cynllunio a rheoli newid trawsnewidiol;
- yn cydredeg gyda polisïau a deddfwriaeth perthnasol;
- yn ymgysylltu gyda rhangddeiliad trwy gydol y broses.

4.3 Disgwylir i'r fersiwn derfynol gael ei gyhoeddi yn fuan. Bydd cynrychiolydd o Gyfoeth Naturiol Cymru yn ymuno â'r cyfarfod i roi mwy o wybodaeth am y Canllawiau newydd.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Derbyn yr wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Tachwedd 26ain 2024 |
| **TEITL** | Cynllun Rheoli'r AHNE |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Cytuno ar Weledigaeth i'r Cynllun |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y camau cychwynnol yn y broses o adolygu'r Cynllun Rheoli. Mae rhai agweddau o gynnwys yr adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor eisoes ond ni ddaethpwyd i benderfyniad arnynt.

**2.0 Y BROSES ADOLYGU**

2.1 Fel a nodwyd yn yr adroddiad flaenorol bydd angen dilyn y canllawiau sydd wedi eu cyhoeddi ar baratoi ac adolygu Cynlluniau Rheoli. Mae'r Canllawiau hyn wedi cael ei baratoi gan Gyfoeth Naturiol Cymru (Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn flaenorol). Mae adolygiad o'r canllawiau ar y gweill a disgwylir iddynt gael ei gyhoeddi yn fuan.

2.2 Yn fras mae hynny yn golygu y dylid dilyn y camau canlynol wrth adolygu'r Cynllun:

- Ystyried effeithiolrwydd y Cynllun presennol
- Ystyried yr wybodaeth ddiweddaraf am nodweddion yr ardal (cyflwr)
- Cymryd ystyriaeth ac ymgorffori gwybodaeth o gynlluniau a strategaethau perthnasol
- Adolygu Gweledigaeth, Nodau/ Amcanion a Pholisiau'r Cynllun
- Creu cynllun gweithredu newydd ar gyfer cyfnod y Cynllun
- Adolygu yr Asesiad Amgylcheddol Strategol/ Rheoliadau Cynefinoedd

2.3 Pwysleisir pwysigrwydd ymgynghori gyda thrigolion yr AHNE a rhanddeiliad yn ystod yr adolygiad. Mae gan y Cydbwyllgor rôl i chwarae yma gan fod cynrychiolaeth dda o wahanol ardaloedd yr AHNE a sefydliadau a mudiadau perthnasol yn aelodau.

**3.0 CYFLWR YR AHNE**

3.1 Un o'r camau cyntaf o ran adolygu Cynlluniau Rheoli yw asesu cyflwr gwahanol nodweddion er mwyn cael darlun o'r sefyllfa a gweld os oes newidiadau wedi digwydd yn ddiweddar. Gall y newidiadau hyn fod yn rhai er gwell neu waeth.

3.2 Comisiynwyd Adroddiad o Gyflwr yr AHNE gan yr Uned AHNE yn 2021.

Mae’r adroddiad yma yn cynnwys gwybodaeth am gyflwr gwahanol nodweddion AHNE Llŷn a’r pwysau arnynt. Mae crynodeb wedi ei gyflwyno i’r Cydbwyllgor yn y gorffennol. Er y derbynnir fod yr adoddiad wedi dyddio ychydig credir ei bod yn parhau yn ddefnyddiol ar gyfer y broses adolygu.

3.3 Gellir hefyd casglu gwybodaeth leol mwy diweddar i ychwanegu at yr wybodaeth yn yr Adroddiad wrth fynd ymlaen hefo’r gwaith adolygu.

## 4.0 CYNLLUNIAU A STRATEGAETHAU

4.1 Beth amser yn ôl bu i’r Uned AHNE gomisiynnu Ymgynghorydd i ddiweddaru Cyd-destun y Cynllun. Roedd y gwaith yma yn golygu diweddaru gwybodaeth am gynlluniau, strategaethau, deddfau ayb sy’n berthnasol i Gynllun Rheoli’r AHNE. Bydd yr wybodaeth yma yn ddefyddiol ar gyfer cyfrannu at y broses adolygu drwyddi draw.

4.2 Mae’r Uned AHNE am adolygu a diweddaru’r wybodaeth yma yn y misoedd nesaf i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn gynhwysfawr.

## 5.0 RHINWEDDDAU LLŶN

5.1 Fel rhan o’r gwaith o baratoi’r Cynlluniau Rheoli blaenorol fe ddiffiniwyd pa rinweddau oedd yn perthyn i AHNE Llŷn ac maent i’w gweld isod. Mae’r rhinweddau hyn yn weddol gyffredinol ac ni ragwelir yr angen i addasu rhain ar gyfer y Cynllun diwygiedig.

- Tirlun ac Arfordir Hardd
- Tawelwch ac Amgylchedd lân
- Cyfoeth o fywyd gwyllt a chynefinoedd
- Yr Amgylchedd Hanesyddol
- Yr iaith Gymraeg a’r diwylliant
- Pobol a chymunedau clos
- Cynnyrch a busnesau lleol
- Mynediad a hawliau tramwy

## 6.0 YR WELEDIGAETH

6.1 Mae Gweledigaeth gyffredinol ar gyfer ardal yr AHNE wedi ei chynnwys yn y Cynllun Rheoli presennol (yn seiliedig ar 2040) sef:

ARDAL O DIRLUN AC ARFORDIR HARDD YN GYFOETHOG O FYWYD GWYLLT SY’N DARPARU LLU O WASANAETHAU NATURIOL I DRIGOLION AC YMWELWYR. NODWEDDION HANESYDDOL A RHINWEDDAU ERAILL YN CAEL EU GWERTHFAWROGI A CHYMUNEDAU LLEOL YN CYNNAL YR IAITH A’R DIWYLLIANT CYMREIG.

6.2 Credir fod yr weledigaeth yma, i raddau health, yn parhau yn berthnasol ond fod posibl symlhau ac ymateb i rai materion ychwanegol perthnasol. Felly awgrymir y Weledigaeth ganlynol i’w chynnwys yn y Cynllun Rheoli diwygiedig (yn seiliedig ar y flwyddyn 2050) :

ARDAL O DIRLUN AC ARFORDIR HARDD GYDA BYWYD GWYLLT CYNHENID YN FFYNNU, LEFEL ISEL O LYGREDD AMGYLCHEDDOL AC AMRYWIAETH O GYFLEON MYNEDIAD CYHOEDDUS. ADEILADAU A NODWEDDION HANESYDDOL MEWN CYFLWR DA, BUSNESAU LLEOL YN LLWYDDO A CHYMUNEDAU LLŶN YN CYNNAL YR IAITH A'R DIWYLLIANT CYMREIG.

**7.0 NODAU/ AMCANION A PHOLISIAU**

7.1 Yn fuan bydd yr Uned AHNE yn dechrau y gwaith o adolygu nodau/amcanion a pholisiau y Cynllun Rheoli presennol ac yn awgrymu diweddaru/ newid rhai agweddau er ymateb i wybodaeth newydd a/ neu newid mewn amgylchiadau. Efallai hefyd y bydd raid cynnwys polisiau newydd ychwanegol. Bydd cyfarfod o'r Cydbwyllgor yn cael ei drefnu i ystyried yr nodau/ amcanion a pholisiau drafft.

7.2 Yn dilyn cytuno ar yr nodau/ amcanion a pholisiau bydd angen adolygu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sydd ynghlwm â'r Cynllun. Rhagwelir y bydd Ymgynghorydd allanol yn cael ei gomisiynu i wneud y gwaith yma.

7.3 Law yn llaw a'r gwaith arall ar y Cynllun bydd angen symud ymlaen i ddiweddaru'r Cynllun Gweithredu. Y Cynllun Gweithredu sydd yn cynnwys manylion am y gwaith yr anelir ei gwblhau o fewn cyfnod gweithredol y Cynllun, gan nodi pwy fydd yn arwain, yr amserlen ac os yn bosibl y ffynhonell ariannol. Rhaid cofio mai cynllun i'r ardal yw'r Cynllun Rheoli nid un i'r Uned AHNE - gall amrywiaeth o fudiadau a sefydliadau gyflawni gweithredoedd er cyflawni nodau/ amcanion y Cynllun.

7.4 Bydd angen cynnal cyfnod o ymgynghori ar y Cynllun diwygiedig drafft. Fel rhan o'r gwaith yma byddwn yn cysylltu gyda mudiadau, sefydliadau ac unigolion trwy whanaol ddulliau i gael eu barn a'u safbwyntiau ar y Cynllun. Bydd gan y Cydbwyllgor rôl i'w chwarae yn ystyried y sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori.

**8.0 MATERION LLOSG**

8.1 Fel cam cychwynnol arall yn y broses o adolygu'r Cynllun gofynnir i aelodau yn y cyfarfod hwn am eu barn o ran materion llosg sydd yn berthnasol i rhinweddau yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn fel a nodir uchod.

8.2 Gellir hefyd gwneud awgrymiadau o ran gweithredoedd neu brosiectau allai fynd i'r afael â'r sialensau sydd yn wynebu'r rhinweddau hyn.

**9.0 ARGYMHELLIAD**

9.1 Derbyn yr Weledigaeth ddiwygiedig ar gyfer y Cynllun Rheoli.

9.2 Darparu sylwadau mewn perthynas â materion llosg a phwysau ar y rhinweddau